# DANGOSYDDION PERFFORMIAD AR GYFER ASESIAD YSGRIFENNU CYFREITHIOL SQE2

| *Sgiliau* | *Dangosyddion sy'n dangos cymhwysedd* | *Dangosyddion nad ydynt yn dangos cymhwysedd* |
|---|---|---|
| **Cynnwys ffeithiau perthnasol** | • Mae'r ymgeisydd yn cyfeirio at a/neu'n mynd i'r afael â'r ffeithiau amlycaf a ddarperir yn y cyfarwyddiadau. Gallai ffeithiau amlwg gynnwys ffeithiau sy'n bwysig wrth sicrhau yr ymdrinnir ag anghenion/amcanion y cleient , neu ffeithiau sy'n berthnasol i gyngor cyfreithiol. | • Mae'r ymgeisydd yn cynnwys llawer o ffeithiau yn ei ateb nad ydynt yn berthnasol i'w gyngor cyfreithiol |
| | | |
| **Defnyddio strwythur rhesymegol** | • Mae dull yr ymgeisydd o gyflwyno gwybodaeth wedi'i drefnu'n dda, yn glir ac yn hawdd ei ddilyn<br><br>• Mae'r darllenydd yn gallu deall ateb yr ymgeisydd heb anhawster | • Mae cyflwyniad yr ymgeisydd o wybodaeth yn ddryslyd ac yn hirwyntog<br><br>• Nid yw'r darllenydd yn gallu dilyn na deall ateb yr ymgeisydd |
| | | |
| **Mae'r cyngor/cynnwys yn canolbwyntio ar y cleient a'r derbynnydd** | • Mae'r ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth o amgylchiadau'r cleient gan gynnwys ei anghenion, ei amcanion a'i flaenoriaethau<br><br>• Mae'r ymgeisydd, lle bo'n berthnasol ac yn briodol, yn archwilio opsiynau ac yn cynghori ar strategaethau ac atebion<br><br>• Mae'r ymgeisydd yn ystyried pwy yw'r cleient; mae'n cydnabod materion allweddol yr achos ac yn ystyried unrhyw risgiau | • Nid yw'r ymgeisydd yn deall safbwynt y cleient e.e. mae'n canolbwyntio ar faterion amherthnasol/yn darparu cyngor y tu hwnt i'r mater dan sylw/yn methu â chynghori ar opsiynau, strategaethau nac atebion perthnasol<br><br>• Mae'r ymgeisydd yn methu ag ystyried pwy yw'r cleient ac nid yw'n cydnabod y materion allweddol yn yr achos nac yn ystyried unrhyw risgiau |

| | | |
|---|---|---|
| | • Lle y bo’n briodol, mae’r ymgeisydd yn cyflwyno unrhyw newyddion anodd neu annymunol mewn modd clir a sensitif. | • Nid oes gan yr ymgeisydd empathi na sensitifrwydd wrth roi newyddion anodd neu annymunol |
| | | |
| **Defnyddio iaith glir, fanwl, gryno a derbyniol sy’n briodol i’r derbynnydd** | • Mae'r darllenydd yn deall defnydd yr ymgeisydd o iaith ac eglurder ei fynegiant<br>• Mae iaith yr ymgeisydd yn briodol i'r derbynnydd ac o safbwynt y sefyllfa<br>• Mae'r ymgeisydd yn osgoi termau technegol/jargon cyfreithiol diangen<br>• Mae’r ymgeisydd yn defnyddio elfennau ffurfiol sy’n briodol i gyd-destun a phwrpas y cyfathrebu. | • Mae'r darllenydd yn cael trafferth deall defnydd yr ymgeisydd o iaith; nid yw'r ateb yn glir a/neu mae wedi'i fynegi'n wael<br>• Mae dealltwriaeth y darllenydd yn cael ei heffeithio'n andwyol gan natur ddwys neu fyr yr ateb<br>• Mae'r ymgeisydd yn defnyddio iaith nad yw'n briodol i'r derbynnydd a/neu'r sefyllfa e.e. mae'r ymgeisydd yn ymateb ar ffurf traethawd<br>• Mae'r ymgeisydd yn defnyddio termau technegol/jargon cyfreithiol sy’n ddiangen neu’n ddryslyd |
| | | |
| ***Y Gyfraith*** | ***Dangosyddion sy'n dangos cymhwysedd*** | ***Dangosyddion nad ydynt yn dangos cymhwysedd*** |
| **Cymhwyso’r gyfraith yn gywir i sefyllfa’r cleient** | • Mae'r ymgeisydd yn nodi’r egwyddorion cyfreithiol cywir ac yn eu defnyddio'n gywir yng nghyd-destun ffeithiau achos y cleient | • Nid yw'r ymgeisydd yn nodi’r egwyddorion cyfreithiol cywir<br>• Nid yw'r ymgeisydd yn nodi nac yn cymhwyso'r egwyddorion cyfreithiol yn gywir i sefyllfa’r cleient |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Defnyddio'r gyfraith mewn modd cynhwysfawr yn sefyllfa'r cleient, gan nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol a phroffesiynol, a defnyddio crebwyll i'w datrys yn onest ac yn ddidwyll** | • Mae ysgrifennu'r ymgeisydd yn ddigon manwl yng nghyd-destun sefyllfa'r cleient a'r materion ffeithiol a chyfreithiol perthnasol<br><br>• Lle bo'n berthnasol, mae'r ymgeisydd yn cydnabod materion moesegol ac yn arfer crebwyll effeithiol wrth fynd i'r afael â'r rhain yn unol ag Egwyddorion a rheolau ymddygiad proffesiynol yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA) | • Nid yw ysgrifennu'r ymgeisydd yn ddigon manwl yng nghyd-destun sefyllfa'r cleient a'r materion ffeithiol a chyfreithiol perthnasol<br><br>• Nid yw'r ymgeisydd yn cydnabod materion moesegol nac yn arfer crebwyll effeithiol wrth fynd i'r afael â'r rhain yn unol ag Egwyddorion a rheolau ymddygiad proffesiynol yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA) |